CYDBWYLLGOR CRAFFU

DYDD MERCHER, 19 GORFFENNAF 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Patricia Arlotte, Bridgeman, Carol Cobert, De'Ath, Karen Dell'Armi, Philippa Hill-John, Jenkins, Joyce, Kelloway, McGarry, Murphy, Singh a/ac Taylor |

1 : CADEIRYDD

Agorodd y Prif Swyddog Craffu’r cyfarfod a gofynnodd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd i’r Cydbwyllgor.

Enwebodd y Cynghorydd Jim Murphy y Cynghorydd Mary McGarry yn Gadeirydd i’r cyfarfod; eiliodd y Cynghorydd Ali hyn.

Penodwyd y Cynghorydd Mary McGarry’n Gadeirydd i’r Cydbwyllgor a chymrodd y Gadair.

2 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Carter, Goddard, Lent, Morgan a Phillips.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Susan Elsmore hefyd wedi anfon ei hymddiheuriadau.

3 : DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4 : ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2016-17

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd; Tony Young, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol; Irfan Alam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Plant ac Amanda Phillips, Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Plant i’r cyfarfod.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i Aelodau fod y cyfarfod yn cael ei gynnal i alluogi Aelodau i graffu ar yr Adroddiad Blynyddol drafft i’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, a ddylai roi darlun clir o effeithiolrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol y Cyngor. Paratowyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr, yn dilyn asesiad o effeithiolrwydd. O ganlyniad, roedd yn rhaid i’r Cyfarwyddwr, Tony Young, sicrhau y gwnaed dyfarniadau onest a chadarn tra ar yr un adeg diogelu enw da’r Cyngor a pheidio â thanseilio ymdrechion gwaith caled staff.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle roedd am longyfarch Aelodau newydd ar eu penodi i’r Pwyllgor ac roedd yn edrych ymlaen at weithio gyda nhw. Nododd fod poblogaeth sy’n heneiddio a bod plant hefyd dan ein

gofal fel Rhieni Corfforaethol; gyda chyllidebau llai, mae hyn yn golygu mwy o bwysau.  Fodd bynnag, nododd fod elfennau cadarnhaol i'r adroddiad a thaw adran gwasanaethau cymdeithasol Caerdydd oedd wedi gwella fwyaf yng Nghymru'r llynedd, a oedd yn sefyllfa lawer gwell na phedair blynedd yn ôl.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Gynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Oedolion 2016/17; yna gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

- Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar y Ganolfan Ddemensia yn Nhrelái a chawsant wybod bod hyn yn Grand Avenue, roedd eisoes ar agor ac roedd y gwaith adnewyddi wedi dechrau.

- Gofynnwyd i aelodau sut diffinnir gofalwyr ifanc a chawsant wybod bod gofalwyr ifanc dan 18 oed gyda chyfrifoldebau gofalu naill ai fel brawd/chwaer neu oedolyn.  Ychwanegodd swyddogion fod mwy o waith i'w wneud gyda gofalwyr ifanc ac roedd swyddogion yn canolbwyntio ar ymdrechion i sicrhau bod asesiadau'n cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol.  Nodwyd fodd bynnag fod weithiau ymwrthedd at asesu oherwydd ofn stigma ac ymyriadau, felly mae swyddogion yn ceisio defnyddio partneriaid i wella ymwybyddiaeth o asesiadau ac y gall yr asesiad canlynol fodloni anghenion gofal a chymorth.

- Gofynnodd Aelodau am fwy o wybodaeth am Arwyddion Diogelwch fel eu bod eisoes yn set sgiliau'r gweithiwr cymdeithasol, roedd Aelodau am wybod sut roedd yn drawsnewidiol.  Eglurodd Swyddogion fod Arwyddion Diogelwch yn drawsnewidiol o ran eu bod yn mynd â phethau'n ôl at arfer cymdeithasol a'r fframwaith holistig, risgiau mapio, edrych ar ffactorau diogelu, gweithio gyda theuluoedd a cheisio gwella'r sefyllfa a nodir cryfderau o fewn y teulu a'r teulu ehangach yn hytrach na chanolbwyntio ar y risgiau.  Yn bennaf roedd i wella canlyniadau gwasanaeth, ond roedd hefyd yn gost-effeithiol cadw plentyn gartref yn ddiogel.  Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ei bod hefyd yn bwysig cydnabod y darlleniad ar draws Oedolion lle mae angen gwneud yr un peth, adennill hyder a pheidio bod mor wrthwynebus i risgiau.

- Gofynnodd Aelodau a oedd cyfarfodydd rheolaidd â'r Prif Swyddog Gweithredol a chawsant wybod fod y protocol wedi ffurfio rôl Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig gan amlygu'r ymrwymiad i'r Cyngor cyfan.  Byddai'r adroddiadau drwy'r Cabinet a'r Cyngor, roedd swyddogion wedi cael cymorth da iawn gan y Prif Weithredwr, y Swyddog Adran 151 a chydweithwyr.

- Gofynnodd Aelodau ba heriau a oedd yn peri'r mwyaf o bryder i swyddogion.  Dywedodd yr Aelodau Cabinet fod heriau fel cael yr arweinwyr cywir, yr arian i gadw a recriwtio gweithwyr cymdeithasol yn y ddinas oedd yn tyfu gyflymaf yn y DU oll yn bwysau arnynt.  Ychwanegodd y byddai angen ariannu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ddigon gan hefyd sicrhau gwerth am arian.  Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod y rhain yn faterion cyffredin; galw, cymhlethdod; arian a chynaliadwyedd; materion sy'n gyffredin ledled y DU.  Ychwanegodd o ran Plant, fod mwy yn dod dan ofal drwy'r llysoedd, y cyfan ag anghenion gwahanol sy'n cymryd amser ac adnoddau i'w helpu. O ran Oedolion, golygodd y boblogaeth sy'n heneiddio a demensia fod angen am wasanaethau a dulliau newydd yn enwedig o bobl oedd wedi'u hynysu.  Roedd iechyd meddwl hefyd yn heriol.  O ran y gweithlu, cyflwynodd hyn

heriau sylweddol o ran cael y staff cywir ar yr adeg cywir yn enwedig yn y sector cartref lle mae'r cyngor yn cystadlu yn y sector tâl isel. Rhaid wynebu'r holl heriau hyn gyda phartneriaid.

- Gofynnodd aelodau a oedd unrhyw waith yn cael ei wneud i benderfynu pam fod y fath gynnydd yn y galw. Eglurodd swyddogion fod rhai anghenion yn dod yn amlycach fel masnachu pobl, camfanteisio'n rhywiol ar blant, anffurfio organau cenhedlu benywod, demensia, cam-drin rhywiol ac ati. Mae cymdeithas yn fwy ymwybodol o'r anghenion hyn bellach ac mae mwy o bethau i'w delio â nhw. Cafodd Aelodau wybod bod ymchwil yn cael ei wneud i Blant yn y System Ofal a Thlodi, gan Brifysgol Caerdydd.

- Gofynnodd Aelodau pwy yw'r partneriaid y bydd y Cyngor yn gweithio gyda nhw a chawsant wybod o ran Plant fod y Cyngor yn gweithio gydag Ysgolion, Clybiau Ieuenctid, Canolfannau Cymunedol, pawb a allai helpu gyda materion sy'n dod i'r amlwg yn fuan fel nad ydy pethau'n gwaethygu. O ran Oedolion mae'r partneriaid yn amrywiol ac yn niferus, gyda pherthnasau allweddol ag Addysg ac Iechyd.

- Nododd Aelodau fod arbenigedd allanol yn bwysig i leddfu'r pwysau ar weithwyr cymdeithasol yn gorfod bod yn bopeth i bawb; ac y gall ymyrraeth gynnar ddylanwadu ar luniad ac annog cymaint â phosibl.

- Dywedodd Aelodau o ran fformat yr adroddiad, byddai'n dda nodi'r materion a'r heriau hyn yn yr adroddiad. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n edrych ar hynny ar gyfer yr adroddiad nesaf, mae'r adroddiad yn bennaf ynghylch perfformiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wrth gyflawni ei ddyletswyddau.

- Credai'r Aelodau fod yr adroddiad yn ddifyr iawn, os nad braidd yn hir a chymhleth, a gofynnwyd a fyddai fersiwn gryno ar gael i'r cyhoedd, a chawsant wybod y byddai. Gwnaethon nhw ychwanegu, y flwyddyn nesaf, y byddai fersiwn dalfyredig y byddai'n haws i bobl ifanc ei darllen.

- Soniodd Aelodau am strwythur rhai penodau a rhifau at wybodaeth swyddogion. Diolchodd swyddogion iddynt am yr adborth hwn a dywedant y byddant yn mynd yn ôl at hyn ar gyfer y flwyddyn nesaf.

- Gofynnodd Aelodau pam fod y niferoedd gyfrannodd at yr ymgynghoriad wedi bod mor wael ymhlith rhanddeiliaid. Dywedodd Swyddogion y bu amryw fforymau, grwpiau rhanddeiliaid wedi'u sefydlu a bod darparwyr heb gysylltu, rhai sesiynau wedi'u canslo. Penderfynwyd bod angen i'r sesiynau fod yn fwy deinamig a bod angen meddwl yn fwy creadigol.

- Gofynnodd Aelodau pa gamau a gymerwyd i recriwtio mwy o weithwyr cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg i'r gwasanaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod hyn yn rhywbeth yr oeddent yn cael trafferth ag ef, ond roeddent yn amharod i wneud swyddi'n rhai Cymraeg hanfodol gan na allent fforddio eithrio pobl rhag gwneud cais pan fônt yn cael trafferth llenwi swyddi. Rhoddodd wybod bod hysbyseb dreigl a oedd yn ddwyieithog ond heb ei chyfeirio'n benodol at siaradwyr Cymraeg.

- Gofynnodd Aelodau a wyddai swyddogion gyfran y bobl a oedd angen Gwasanaethau Cymraeg.  Dywedodd swyddogion nad oedd swyddog penodedig yn y gyfarwyddiaeth sy'n alinio adnoddau i anghenion; cofnodir ffigurau yn yr asesiad Lles a Care First felly gallai adroddiad gael ei gynnal i sefydlu hyn.  Ychwanegodd yr Aelodau Cabinet fod llawer o bethau'n cael eu gwneud i hyrwyddo cyrsiau Cymraeg er mwyn i'r gwasanaeth fod yn fwy hygyrch a chyfleus.

- Gofynnodd Aelodau a oedd rhieni â phroblemau iechyd meddwl gyda'r plant yn dioddef a ddim yn eu nodi'u hunain, sut dysgid amdanynt.  Dywedodd Swyddogion taw dyma oedd yn bwysig wrth gael un gyfarwyddiaeth Oedolion/Plant, cydweithio a rhannu gwybodaeth.  Ychwanegodd swyddogion y byddai cyfrifoldeb statudol i gefnogi rhieni, gydag ymrwymiad i gadw'r plentyn gartref yn ddiogel.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet i gyfleu sylwadau'r pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.